

Hawdd ei Ddeall



Dewch Â'n Hawliau i Ni

Fersiwn byr o Fanifesto Pobl ag
Anableddau

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Dewch Â'n Hawliau i Ni: Cyfarwyddyd ar gyfer Manifesto Pobl ag Anableddau**.

Rhagfyr 2020

Cyflwyniad



Mae **Anabledd Cymru** yn fudiad sy'n gweithio i amddiffyn hawliau pobl ag anableddau yng Nghymru.



Rydyn ni wedi bod yn siarad â phobl ag anableddau ynglŷn â phethau y maen nhw'n ei chael yn anodd wrth fyw yng Nghymru.



Yn awr byddwn ni'n siarad â'r holl **bleidiau gwleidyddol** yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y gallan nhw wneud pethau'n well.



Mae **plaid wleidyddol** yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl.

Maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn cael ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae'r pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Y Ceidwadwyr Cymreig
- Llafur Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Y ddogfen hon yw ein **Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto**.



Mae **Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto** yn ddogfen fer sy'n dweud wrthyn ni am bethau yr hoffai mudiad weithio arnyn nhw.



Mae **Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto** yn ein helpu i ddeall pa bethau sydd arnon ni angen gweithio arnyn nhw i gefnogi pobl ag anableddau yng Nghymru.

Beth yw'r pethau y mae arnon ni angen gweithio arnyn nhw



Y mae chwech o bethau y mae arnon ni angen gweithio arnyn nhw i gefnogi hawliau pobl ag anableddau.

Y pethau hyn yw:



1. Dilyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** yn ddogfen sy'n dweud wrthyn ni am hawliau pobl ag anableddau.



Mae'n rhoi **fframwaith** ar gyfer gwneud yn siŵr bod cefnogaeth ar gyfer hawliau pobl.

Mae **fframwaith** yn gynllun ar gyfer pryd i wneud pethau a sut i wneud pethau.



2. Cefnogi pobl eraill i ddeall y pethau y mae pobl ag anableddau yn eu cael yn anodd.



3. Cefnogi mwy o bobl ag anableddau i fyw yn y ffordd y mae arnyn nhw eisiau.



4. Cael mwy o gefnogaeth gan iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl ag anableddau.



5. Ei gwneud hi'n haws i fwy o bobl ag anableddau gael gwaith. A rhoi gwell cefnogaeth iddyn nhw yn y gwaith.



6. Gwneud yn siŵr bod gan bobl ag anableddau le i fyw sy'n cwrdd â'u hanghenion.



Rydyn ni'n meddwl y bydd y chwe pheth hwn yn helpu i wneud Cymru yn lle ble mae pobl ag anableddau yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill.

Geiriau anodd

Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto

Mae Cyfarwyddyd ar gyfer Maniffesto yn ddogfen fer sy'n dweud wrthyn ni am bethau yr hoffai mudiad weithio arnyn nhw.

Fframwaith

Cynllun ar gyfer pryd i wneud pethau a sut i wneud pethau.

Plaid wleidyddol

Mae plaid wleidyddol yn grŵp sy'n cytuno sut i wneud bywyd yn well i bobl.

Maen nhw'n dod at ei gilydd ac yn cael ymgeisydd ar gyfer etholiad. Yng Nghymru mae'r pleidiau gwleidyddol yn cynnwys:

- Plaid Cymru
- Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
- Y Ceidwadwyr Cymreig
- Llafur Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru